




Trydan Cydweithredol Corwen

Dogfen Cynnig Cyfranddaliad



Chwefror 2015

Trydan Cydweithredol Corwen Cyfyngedig

Cofrestrwyd gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol rhif 32341R

Annwyl Ddarpar aelodau,

Croeso i ddogfen cynnig cyfranddaliad ar gyfer Trydan Cydweithredol Corwen. Ein nod yw cynhyrchu trydan dwr carbon isel o Nant Cawrddu wrth iddi lifo i lawr i dref Corwen. Yn ogystal â mynd i'r afael â phroblem gynyddol y newid yn yr hinsawdd, bydd hyn o fudd hefyd i'r economi leol ac yn dod ag arian newydd i'r dref.

Rydym wedi sefydlu hyn fel menter gydweithredol er mwyn i'r gymuned gyfan fod yn rhan o'r cynllun a chael cyfran o'r budd. Bydd yr arian sydd ei angen i greu'r cynllun yn cael ei godi'n gyfan gwbl drwy gyfranddaliadau gan roi blaenoriaeth i bobl leol, gyda'r bwriad o roi ad-daliad teg i'r tanysgrifwyr ar eu harian. Oherwydd ein bod yn gwmni cydweithredol, bydd y gwaith rhedeg a gwneud penderfyniadau yn cael ei wneud ar sail un aelod, un bleidlais, a chaiff y fenter gydweithredol ei rhedeg gan gadw'n glos at egwyddorion rhyngwladol mentrau cydweithredol, a hynny'n cynnwys sylw i ddemocratiaeth, cydraddoldeb a gonestrwydd.

Defnyddir rhan o'r gwarged i dalu'r llog ar y cyfranddaliadau y bydd yr aelodau wedi eu prynu a bydd gweddill y gwarged yn mynd i gronfa gymunedol benodedig. Disgwylir i hyn fod tua £500 y flwyddyn a bydd aelodau a chyfarwyddwyr y cwmni cydweithredol yn gyfrifol am benderfynu sut y dylid gwario hwn yn y gymuned.


Mae manteision treth deniadol ar gael i nifer o drethdalwyr sy'n gwella'r ad-daliad ar y cyfranddaliadau hyn, ac fe roddir mwy o fanylion amdanynt yn y ddogfen hon.


Darllenwch y ddogfen yn ofalus, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn penderfynu ein helpu i wireddu'r cyfle cyffrous hwn.


Y Cyfarwyddwyr

DATGANIAD

Mae Trydan Cydweithredol Corwen a phob un o'r Cyfarwyddwyr y nodir eu henwau isod, yn datgan yma eu bod wedi cymryd pob gofal rhesymol i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhwysir yn y Ddogfen Gynnig hon, hyd eithaf ei allu/gallu, yn cyd-fynd a'r ffeithiau ac nad oes unrhyw wybodaeth ei heithrio fydd yn debygol o effeithio ar yr ystyr.

.....  Ifor Sion

.....  Robert Roberts

.....  Michael Paice

.....  Joel Scott

Cynnwys

Datganiad.....	2
CRYNODEB O'R CYNNIG.....	3
2. Cefndir	5
3. Golwg ar y Busnes	6
4. Rhagamcanion ariannol.....	10
5. Ffactorau Risg	14
6. Rheolaeth a Gweinyddiaeth	16
7. Cynnig Cyfranddaliad.....	20
8. Telerau ac amodau	22
9. Rhestr Dermau	24
10. NODIADAU CANLLAW.....	25
11. Ffurflen Gais	26
12. Datganiad	27

CRYNODEB O'R CYNNIG

Dyma grynodeb o'r cynnig i fod yn berchen ar gyfranddaliadau gan Drydan Cydweithredol Corwen Cyf (TCC neu'r 'fenter Gydweithredol').

1.1. Cyflwyniad

Pwrpas y cynnig hwn am gyfranddaliadau yw codi digon o arian i brynu offer, a'r gwaith adeiladu a gosod angenrheidiol i osod generadur hydro ar Nant Cawrddu yng Nghorwen.

Mae'r holl drwyddedau Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu lle. Mae'r caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun cychwynnol wedi ei roi, ond mae angen addasu'r caniatâd hwn, a dilyswyd y cais diwygiedig ar 29 Rhagfyr 2014 a daw penderfyniad arno erbyn 22 Chwefror 2015. Ariannwyd y gwaith oedd ei angen i

gasglu'r rhain at ei gilydd drwy gynnig cyfranddaliadau arloesol a grantiau.

Mae Penawdau'r Telerau wedi eu cytuno gyda'r tîrfeddianwyr i gyd ac mae trafodaethau'r les ar fin cael eu cwblhau.

Mae'r prosiect bellach wedi cyrraedd cam ble gellir dechrau adeiladu unwaith y bydd cytundeb ar y les a'r cyfalaf i adeiladu yn ei le. Rydym yn anelu i gychwyn adeiladu yn ystod Haf 2015.

1.2. Gwybodaeth bwysig

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi gan Gyfarwyddwyr Trydan Cydweithredol Corwen, a nhw sy'n gyfrifol am ei chynnwys. Ceir manylion llawn ynglŷn â chydymffurfiaeth gyfreithiol y ddogfen hon a thelerau'r cynnig a sut i danysgrifio, ym mhrif gorff y ddogfen hon. Mae geiriau technegol a geiriau ac

ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Ddogfen Gynnig hon sydd ag ystyr benodol, wedi eu diffinio a'u hegluro yn yr Eirfa. Dylid darllen y crynodeb hwn fel cyflwyniad yn unig a dylid gwneud unrhyw benderfyniad i danysgrifio ar sail y ddogfen gyfan.

1.3. Y Prosiect

Pwrpas y prosiect yw creu generadur hydro-electrig sy'n eiddo i'r gymuned ac yn cael ei reoli ganddi, a chynhyrchu cymaint o drydan dwr a phosibl er mwyn lleihau dibynadwyaeth yr ardal gyfagos ar drydan y grid, sydd yn deillio o danwydd ffosil ar hyn o bryd. Ein nod yw gwneud yn fawr o'r adnodd ynni adnewyddadwy sydd ar gael ar raddfa gost effeithlon.

Bydd y fenter Gydweithredol yn cynhyrchu refeniw o werthu'r trydan ac yn derbyn incwm o'r Tariff Cyflenwi

Trydan, fydd yn ei alluogi i wneud taliadau llog a thalu'r cyfalaf gwreiddiol yn ei ôl erbyn diwedd oes y fenter gydweithredol. Bwriedir i hyn gymryd 20 mlynedd yn seiliedig ar delerau taliad y Tariff Cyflenwi Trydan. Gellir gweld manylion llawn y system Tariff Cyflenwi Trydan yn www.ofgem.gov.uk, sef gwefan OFGEM sef rheoleiddwyr y diwydiant trydan.

1.4. Arbedion carbon

Amcangyfrifir y bydd y prosiect yn cymryd lle'r hyn sy'n cyfateb i 58 tunnell o CO2 bob blwyddyn.

1.5. Y Cynnig

Mae'r Ddogfen Gynnig hon yn ceisio codi digon o arian drwy gynnig Cyfranddaliadau am £1, er mwyn ariannu adeiladu a chomisiynu gorsaf drydan dwr ar Nant Cawrddu yng Nghorwen.

Y swm a geisir Gynnig Cyfranddaliadau yw £300,000, sef yr amcan gorau ar hyn o bryd ar gyfer y costau cyfalaf angenrheidiol gan gynnwys 10% wrth gefn, ond

gan eithrio'r swm a godwyd eisoes drwy'r cynnig arloesol (£25,200).

Agorir y cynnig am gyfranddaliadau ar 19 Chwefror 2015. Bydd y Cynnig yn aros yn agored hyd nes y bydd swm targed y cyfranddaliadau wedi ei gyrraedd.

Trydan Cydweithredol Corwen

Cafodd yr aelodau a brynodd gyfranddaliadau yn y cynnig arloesol wedi cael cyfranddaliadau gyda blaenoriaeth pan wnaed y prif gynnig. Mae'r aelodau blaengar yma wedi gofyn am gyfanswm o 7,000 arall o gyfranddaliadau sy'n golygu bod cyfanswm y cyfranddaliadau sy'n dal ar gael yn £300,000 - 7,000 = £293,000.

Dylai'r tanysgrifwyr edrych ar y Cyfranddaliadau hyn fel buddsoddiad tymor hir. Gallant danysgrifio am leiafswm o 250 a mwyafswm o 95,000 o Gyfranddaliadau sy'n werth £1 yr un, yn amodol ar y cyfyngiad na ddylai unrhyw gyfranddaliwr unigol (na chyfranddaliwr ac aelodau agos o'r teulu) fod yn dal mwy na 30% o werth y cyfranddaliadau ar unrhyw adeg. Mae hyn yn ofynnol o ran bod yn gymwys ar gyfer y gostyngiad treth.

Mae cyfranddaliadau eisoes wedi eu cyhoeddi drwy gynnig arloesol a lwyddodd i godi £25,200 i dalu am y costau datblygu. Bydd y cyfranddaliadau arloesol a'r prif gyfranddaliadau yn gyfwerth o ran statws ar ôl eu cyhoeddi.

Ni chaiff cyfranddaliadau eu gwerthu ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig ac nid oes modd trosglwyddo cyfranddaliadau. Gall aelodau wneud cais i dynnu eu cyfranddaliadau yn ôl ar ôl tair blynedd o weithredu. Gellir caniatáu tynnu cyfranddaliadau yn ol ar ddisgresiwn y bwrdd ond pan fyddant wedi eu hawdurdodi, gwneir hynny yn y drefn y bydd y ceisiadau wedi eu derbyn (cyntaf i'r felin).

Ar ôl prosesu unrhyw geisiadau tynnu'n ôl gwirfoddol a awdurdodwyd, caiff y cyfalaf sy'n weddill ei ad-dalu i'r aelodau sy'n aros fesul rhandaliad blyneddol wrth i'r incwm gasglu yn y fenter Gydweithredol, a hynny'n amodol ar gynhyrchu elw a chadw digon o arian wrth gefn o fewn y fenter Gydweithredol ac ar yr amod nad yw cyfalaf cyfranddaliadau'n cael ei ad-dalu o fewn tair blynedd er mwyn cydymffurfio a'r amodau sydd ynghlwm a'r gostyngiad yn y dreth.

Mae pob cyfranddaliwr, beth bynnag fo'i gyfran, yn dod yn aelod cyfartal yn awtomatig o Drydan Cydweithredol Corwen ar sail un aelod un bleidlais.

1.6. Gostyngiad yn y Dreth

Mae'r cyfranddaliadau yma wedi eu cynllunio i fod yn addas i dderbyn gostyngiad yn y dreth fel y gall aelodau sy'n drethdalwyr gael gostyngiad yn y dreth ar eu buddsoddiad.

Bydd y gostyngiad yn digwydd ar ddwy ffurf;

Gostyngiad treth SEIS ar 50% fydd ar gael ar yr £86,000 cyntaf o'r ceisiadau cyfranddaliadau yn y cynnig hwn, (gyda 7,000 wedi ei ddyrannu i aelodau arloesol, gan adael £79,000 ar gael i aelodau eraill)

Bydd gweddill y cyfranddaliadau yn addas ar gyfer gostyngiad treth Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau os gwneir y cais cyn 31 Mawrth. Disgwylir y bydd gostyngiadau treth eraill ar gael i geisiadau a wneir ar ôl 31 Mawrth (gweler rhan 5).

Caiff y gyfradd gostyngiad treth uwch ei ddyrannu ar sail y cyntaf i'r felin.

Gellir cael mwy o fanylion ar ostyngiad treth yn adran 4.

1.7. Cyfradd enillion

Cyfrifir yr enillion y rhagdybir y bydd yr aelodau yn eu gwneud yn ôl yr incwm a'r gwariant yn ystod oes y peiriant trydan dŵr gan ddefnyddio'r damcaniaethau isod.

Mae'r amcan cyfradd enillion yn cyfateb i gyfradd enillion mewnol o 4.8% dros gyfnod o 20 mlynedd y prosiect. Mae'r fantais o ostyngiad treth yn ychwanegol at hyn. Ar gyfer cyfranddaliadau sy'n gymwys i dderbyn 30% o ostyngiad yn y dreth o dan y

Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau neu'r Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau, mae'r enillion mewn gwirionedd dros 20 mlynedd yn 7.8% ac ar gyfer cyfranddaliadau sy'n gymwys i dderbyn 50% o ostyngiad yn y dreth o dan SEIS, mae'r gyfradd enillion mewnol yn 10.5%.

Mae cyfrifiadau'r gyfradd enillion mewnol yn seiliedig ar ein hamcan gorau o'r dyddiadau pan fydd yr aelodau'n derbyn yr enillion.

1.8. Risgiau

Mae pob gweithgaredd buddsoddi a masnachol yn dod a'u risg yn eu sgil. Dylai'r tanysgrifwyr gymryd cyngor priodol a gwneud eu hasesiadau risg eu hunain, gan

gadw mewn cof beth yw agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol y Prosiect.

Dylai'r rhai sydd â diddordeb mewn buddsoddi wneud hynny ar ôl darllen y ddogfen hon yn llawn a chymryd cyngor ariannol a chynghor arall priodol. Nid

yw'r cynnig cyfranddaliad hwn wedi ei warchod gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol na Chynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol.

2. CEFNDIR

Mae'r rhan hon yn rhoi cefndir y Prosiect a'r sefydliadau sydd wedi dod ag ef ynghyd.

2.1. Mentrau Cydweithredol ac Ynni Adnewyddadwy

Cychwynnodd mentrau cydweithredol yn y DU yn 1844 pan ffurfiwyd cronfa fwyd yn Rochdale, Swydd Gaerhirfryn, a drefnwyd gan griw a adwaenir fel y Rochdale Pioneers. Roedd y 30 o sylfaenwyr yma yn rhwystredig gydag arferion anonest a'r prisiau uchel a godwyd gan fasnachwyr lleol, a sefydlwyd siop newydd yn seiliedig ar egwyddorion moesegol a honno'n eiddo i'w chwsmieriaid ei hun. O'r cychwyn hwn, mae'r mudiad cydweithredol wedi lledaenu drwy'r byd, gyda phob menter gydweithredol yn seiliedig ar yr un egwyddorion sef perchnogaeth eang, a set o werthoedd ac egwyddorion yn seiliedig ar gydraddoldeb a democratiaeth.

Mae perchnogaeth gydweithredol ar ynni adnewyddadwy wedi bod ar dwf yn y DU a thrwy Ewrop dros y 15 mlynedd diwethaf. Y fenter gydweithredol ynni adnewyddadwy gyntaf yn y DU oedd Baywind Co-operative yn Cumbria, a sefydlwyd

yn 1997. 11 mlynedd yn ddiweddarach, daeth Torrs Hydro yn swydd Derby yn fenter gydweithredol trydan dŵr gyntaf y DU. Bellach, mae mentrau cydweithredol ynni adnewyddadwy ar draws y DU ac ym mhob technoleg.

Mae mentrau cydweithredol yn strwythurau democrataidd gyda'r gallu cyfreithiol i godi arian yn uniongyrchol gan aelodau'r cyhoedd. Gyda system un aelod un bleidlais a bwrdd wedi ei ethol o'r aelodaeth, maen nhw'n cynnig ffordd deg a thryloyw o weithredu busnes ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned. Maen ganddynt bŵer hefyd i flaenoriaethu buddsoddiad o'r ardal leol, gan sicrhau, cyn belled a bo modd, bod budd ariannol o ynni adnewyddadwy yn dod i'r bobl leol.

2.2. Prosiect Trydan Dŵr Corwen

Mae Stad Rhug wedi dynodi safle bychan ar gyfer datblygu pŵer dŵr uwchben Corwen. Y ffynhonnell ddŵr yw cronfa sy'n cael ei bwydo o Nant Cawrddu. Er bod y llif yn fychan, mae'r uchder posibl yn 150m ac roedd adroddiad technegol cynnar yn argymhell y gellid datblygu'r safle i ddarparu tua 42 kW o drydan.

Y gronfa oedd ffynhonnell dŵr yfed Corwen ond mae'r prif gyflenwad dŵr yn golygu nad yw'r gronfa'n cael ei defnyddio gan Dŵr Cymru bellach. Mae'r nant yn mynd heibio'r gronfa ar hyn o bryd ac yn disgyn i ddyffryn dwfn sy'n arwain i Gorwen.

Comisiynodd Cadwyn Clwyd sawl astudiaeth dichonolrwydd dŵr yn 2011 gan gynnwys y safle hwn, gyda gwybodaeth a ddarparwyd gan stad Rhug. Dynodwyd bod y safle hwn yn dangos addasrwydd. Gweledigaeth Cadwyn Clwyd yw cefnogi gweithgareddau lleol, ac felly mae wedi bod yn awyddus i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am y cynllun (a'r budd yn y pen draw) i grŵp cymunedol. Mae hyn wedi arwain at greu menter gydweithredol newydd o'r enw Trydan Cydweithredol Corwen a sefydlwyd yn benodol er mwyn parhau â'r gwaith.

Y prif sefydliadau sy'n rhan o ddatblygu'r cynllun yw:

Cadwyn Clwyd Cyfyngedig sef Asiantaeth ddatblygu Wledig, sy'n rhoi canllawiau a chymorth i ddatblygu ac arallgyfeirio'r economi wledig yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych drwy arian yr Undeb Ewropeaidd, ac arian sector preifat a chyhoeddus yn y DU.

Mae'r Cwmni'n rhoi sylw i weithredoedd sy'n ysgogi cyfranogiad lleol, gweithio mewn partneriaeth a mentergarwch i gefnogi prosiectau mewn cymunedau gwledig a grwpiau sector. Mae'n gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau lleol i helpu i ddatblygu a gweithredu prosiectau sydd o fudd i economi leol yr ardal.

Ffurfiwyd **Trydan Cydweithredol Corwen** yn swyddogol ar 20fed Mawrth 2014 ac mae ganddo 4 cyfarwyddwr sy'n sylfaenydd. Mae Trydan Cydweithredol Corwen yn un o blith amryw o fentrau cydweithredol sy'n cael eu datblygu gyda chymorth Sharenergy.

Trydan Cydweithredol Corwen

Mae **Corin Hughes Limited** yn datblygu cynlluniau hydro ar raddfa fechan, ac mae wedi cydlynu'r holl waith sydd wedi ei wneud er mwyn cyflwyno'r cais cynllunio, y drwydded echdyniad a'r caniatâd gan dirfeddianwyr sydd eu hangen er mwyn creu'r cynllun.

Mae **Sharenergy** yn fenter gydweithredol yn yr Amwythig sy'n helpu grwpiau cydweithredol i sefydlu mentrau ynni adnewyddadwy cydweithredol sy'n eiddo i'r gymuned. Mae Sharenergy yn gwmni sy'n deillio o Energy4All, sef cwmni dielw sydd wedi hanu o fferm wynt gymunedol Baywind yn Cumbria.

3. GOLWG AR Y BUSNES

Ar hyn o bryd, unig weithgarwch Trydan Cydweithredol Corwen yw perchnogaeth a rheolaeth Cynllun Trydan Dŵr ar Nant Cawrddu, ond nid yw hyn yn rhwystro'r Gymdeithas rhag datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy eraill yn y dyfodol gyda chytundeb yr aelodau.

3.1. Y Safle

Mae Nant Cawrddu wedi ei lleoli i'r de o Gorwen. Bydd rhan uchaf y cynllun trydan dŵr wedi ei leoli yn y gronfa ddŵr uwchben y dref, a bydd y rhan isaf yn agos at ganol y dref.

Bydd y cwymp fertigol rhwng y mewnlif a lleoliad arfaethedig y tyrbîn yn tua 150m. Byddai'r pellter llorweddol rhwng y mewnlif ac adeilad y tyrbîn yn tua 700m.

Mae cynllun lleddfa llifogydd wedi ei greu ar Nant Cawrddu a Nant y Pigyn i amddiffyn Corwen rhag

llifogydd posibl. Mae'r cynllun hwn wedi golygu seilwaith yn y gronfa a chanol y dref hefyd. Drwy weithredu'n gynnar, bu'n bosibl dylanwadu ar gynllun y gwaith lleddfu llifogydd a thrwy hynny sicrhau y gellir integreiddio'r cynllun trydan dŵr yn rhwydd ac yn rhad.

Hefyd, mae cynllun y strwythur i arall gyfeirio'r llif sydd wedi ei adeiladu ar Nant Cawrddu uwchben y gronfa, wedi cael ei addasu i sicrhau fod digon o lif yn cyrraedd y gronfa drwy gydol y flwyddyn.

3.2. Perchnogaeth tir

Mae tri thirfeddiannwr yn rhan o'r cynllun a phob un yn berchen ar ran o'r tir rhwng y mewnlif ac adeilad y tyrbîn. Y tirfeddianwyr hyn yw Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Stad y Rhug.

Mae Penawdau'r Telerau eisoes wedi eu cytuno gyda'r tirfeddianwyr ac mae'r opsiynau a'r les yn y camau trafod olaf gyda'r tirfeddianwyr, fydd yn sicrhau mynediad i Drydan Cydweithredol Corwen at y safle am fwyafswm o 40 mlynedd. Ar ôl 22 mlynedd, mae

gan Drydan Cydweithredol Corwen ddewis i ddod a'r les i ben yn ol penderfyniad yr aelodau a'r bwrdd ar yr adeg honno.

Ni fydd unrhyw arian a godwyd drwy'r cynnig cyfrandaliadau hwn yn cael ei wario cyn y bydd opsiwn wedi ei arwyddo gyda phob landlord, ac os na ellir arwyddo un o'r opsiynau am ba bynnag reswm, dychwelir yr holl arian o'r cyfrandaliadau ac ni fydd y cynllun yn parhau.

3.3. Gweithredu'r Cynllun Hydro

Mae gwaith dylunio a dichonolrwydd sydd wedi ei wneud, wedi dod i'r casgliad mai'r tyrbîn mwyaf addas ar gyfer y safle yw olwyn Pelton gyda chyfradd 55 kW. Noder fod hyn yn uwch na'r 42kW a gynigwyd mewn adroddiad technegol blaenorol. Mae'r cynnydd yn bennaf oherwydd bod y drwydded echdynnu'n caniatáu 'llif ebrwydd brig' uwch na'r hyn a ragdybiwyd yn wreiddiol. Mae gan y cynllun 55 kW drwydded echdyniad ac mae'r caniatâd cynllunio diwygiedig i'w ddisgwyl ar 22ain Chwefror 2015.

Dangosir cynllun o'r system arfaethedig ar y dudalen nesaf.

Y prif faterion sydd wedi eu hystyried yn y cam dichonolrwydd yw'r canlynol:


- 1) Adnodd - colofn a llif dŵr. Sefydlwyd colofn grynsyth o 147m yn seiliedig ar gynlluniau a gafwyd gan Martin Wright Associates. Mae hyn yn arwain at golofn net (wedi ei addasu ar gyfer y ffrithiant yn y pibellau dŵr) o 143m.

Amcangyfrifwyd y llif blynyddol drwy ddefnyddio'r model cyfrifiadurol LowFlows 2 a thrwy fapio'r dalgylch o gynlluniau cyfliniau. Mae cored plât tenau siap-V a synhwyrdd lefel wedi eu gosod yn lleoliad sgrinio mewnllif arfaethedig Coanda er mwyn casglu data llif. Gadewir yr offer hwn yn ei le hyd at Basg 2015 a defnyddir y data a gesglir i ddilysu'r amcangyfrifon llif o'r modelau. Mae'r arwyddion sy'n seiliedig ar y data a gasglwyd dros 39 diwrnod hyd yma yn dangos fod y ddau amcangyfrif llif cymedrig blynyddol (y cyntaf yn seiliedig ar fodelu LowFlows 2 a'r ail yn seiliedig ar fesuriadau llif ar y safle ac mewn mesurydd cyfagos gan Gyfoeth Naturiol Cymru) yn agos at ei gilydd o fewn 2%.

- 2) Cydsyniad a chaniatâd. Bydd unrhyw gynllun trydan dwr angen caniatâd cynllunio a thrwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Bydd angen cyswllt gyda'r grid hefyd.

Mae pob caniatâd wedi ei dderbyn, a derbyniwyd cynnig o gyswllt gyda'r grid gan DNO. Mae'r cyswllt grid wedi ei archebu bellach a thalwyd amdano'n llawn.

- 3) Cynhyrchu ynni blynyddol. Cyfrifwyd y bydd hyn yn 135,000 kWh yn seiliedig ar amcangyfrifon realistig o ran adnoddau, effeithiolrwydd y system, argaeledd y system, argaeledd y grid a cholledion trydan.
- 4) Rhagamcanion ariannol. Amcangyfrifwyd y gwariant cyfalaf a gweithredol yn seiliedig ar gasgliadau rhesymol a phrofiad o brosiectau blaenorol. Cafwyd dyfynbrisiau ar gyfer eitemau allweddol. Yna crëwyd model ariannol wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer y prosiect gan Sharenergy, yn seiliedig ar brosiectau eraill tebyg.



- ALLWEDD
- Ffyn y newid a gela
 - Wedi ei gartio i heb ei newid
 - Cynllun gwelddol
 - Strwythur lliniar llyfogdd presenol

07	26/12/14	CH	Urbell goch, las a bryd wedi eu hychwanegu. Ychwanegwyd newid i r bibell frwd isaf.
06	28/11/14	CH	Cibell yn ddiwiso, ychwanegwyd cart dros dro.
05	23/11/14	MH	Pwedyd wedi mewn cllan yn y lleth.
04	14/07/14	MH	Selliedd ar R02. Ychwanegwyd llinell goch a bryd, diweddarwyd strwythur trosgwyddo a chyffwrddau, taciaw cyffrednol.
03	23/05/14	CH	Ychwanegwyd prydles Ddr Cymru a threfnau rhydd-ddalud.
02	19/05/14	SE	Ychwanegwyd pwyntiau ABCD, ychwanegwyd cyffwrddau.
Ado	Dyddiad	Can	Digrifed

Cofre Hughes Limited
3 Bole Vue Close
Stroud
Gloucestershire
GL5 1ND
07792 319313

Pellwch â gredid o'r dylunad		Eme'r safle	
Mesuridau i gyd mewn milimetr		Conven hydro	
Tafuriad		Tafuriad	
Delwydd	Conffwrdd	Dylunad mtr	Adroddiad
n/a	n/a	CWFP001_00_000	R07
Tafuriad		Tafuriad	
CH 27/12/2014		CH	
		Aminell	
		1 o 1	

3.4. Cynllun Ardystio micro gynhyrchu

O ganlyniad i oedi gan y llywodraeth wrth greu Safon briodol ar gyfer trydan dŵr, mae'r ardystiad hwn, sy'n angenrheidiol ar gyfer technolegau eraill i hawlio'r Tariff Cyflenwi Trydan, wedi ei hepgor yn achos systemau trydan dŵr. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei

monitro, ac os bydd hi'n ofynnol ardystio, bydd y fenter Gydweithredol yn sicrhau bod yr holl ofynion ardystio yn cael eu bodloni a bod y cynllun yn cychymffurfio â'r Tariff Cyflenwi Trydan.

3.5. Achrediad cychwynnol

Mae OFGEM yn gweithredu cynllun Achredu Cychwynnol er mwyn galluogi cynlluniau ynni adnewyddadwy i fod ynghlwm â chyfradd Tariff Cyflenwi Trydan penodol ar yr adeg pan fyddant yn cadarnhau caniatâd cynllunio, trwyddedau Cyfoeth Naturiol Cymru, a chysylltu gyda'r grid. Bydd y tariff yn sefydlog wedyn cyhyd ag y bydd y cynllun ar waith o fewn 2 flynedd i'r dyddiad ymgeisio am yr Achrediad Cychwynnol.

Roedd y Gymdeithas yn anelu i gael pob caniatâd angenrheidiol cyn diwedd Rhagfyr er mwyn i'r Tariff Cyflenwi Trydan fod yn sefydlog o'r pwynt hwnnw. Ond bu'n rhaid newid y caniatâd cynllunio yn hwyr yn y

dydd a hynny o ganlyniad i newid yn un o'r cytundebau gyda thirfeddiannwr. Arweiniodd hyn at fod angen newid yn y caniatâd cynllunio ac ni dderbynnir y newid hwn hyd 22ain Chwefror 2015 (er bod caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun wedi ei gymeradwyo cyn y newid).

Bydd y Tariff Cyflenwi Trydan fydd yn weithredol felly, yn un a ddaw i rym ym mis Ebrill 2015 a dyma'r casgliad a wnaed yn y rhagamcanion ariannol. Mae'n bosibl y gallai trafodaethau olygu y bydd Tariff Cyflenwi Trydan cyn Ebrill 2015 yn gymwys, ac yn yr achos hwnnw, byddai'r rhagamcanion ariannol yn well na'r rhai a gyflwynir, ond ni ellir rhagdybio hyn.

3.6. Gwerthiant trydan

Mae'n bosibl i unrhyw gynllun ynni adnewyddadwy sy'n cynnwys mesurydd allforio naill ai allforio i'r grid a derbyn tariff allforio sylfaenol OFGEM sef 4.85p/kWh, neu drafod gwerthu'r trydan i unrhyw un o'r cyflenwyr trydan. Fel arfer, bydd gwerthu'r trydan yn uniongyrchol yn rhoi pris ychydig yn uwch na thariff sylfaenol OFGEM. Mae pris y farchnad ar hyn o bryd ar gyfer trydan a allforir yn tua 5.7p/kWh (gan gynnwys y

taliadau ychwanegol megis Tystysgrifau Eithrio Lefi) a dyma'r ffigwr a ddefnyddir yn y rhagamcanion ariannol.

Mae'n bosibl y gellid gwerthu peth o'r trydan yn uniongyrchol i gwsmer ar y diwedd am bris uwch ac fe ymchwilir i hyn. Mae'r model ariannol wedi ystyried yn geidwadol y bydd y trydan i gyd yn cael ei allforio i'r grid.

3.7. Amserlen y Prosiect

Dyma amserlen ddangosol i nodi'r cynnydd a fwriedir wrth symud fesul cam credadwy – ond fe all hyn newid ac mae'n debygol o newid fel bo'r angen.

Chwef 2015	Lansio cynnig cyfranddaliadau
Mai 2015	Cwblhau'r prif gyfranddaliadau Arwyddo'r cytundebau adeiladu
Gorffennaf 2015	Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol cyntaf y Gymdeithas
Haf 2015 ymlaen	Adeiladu
Haf 2016	Comisiynu
Mawrth 2017	Gwneud y taliad llog cyntaf

4. RHAGAMCANION ARIANNOL

Cyfanswm cost y system tyrbin Pelton 55kW yw tua £320,000, gan gynnwys yr holl gostau datblygu ac adeiladu. Derbyniwyd grant i dalu'r costau cyfreithiol a gwnaed cais am grant arall i dalu am yr ymgyrch mesur llif, sy'n gostwng yr angen am gyfalaf o ffynonellau eraill i £290,000.

Cyfrifir cost y prosiect o ddyfynbris a dderbyniwyd gan Corin Hughes Limited am y gwaith adeiladu, ynghyd a chostau datblygu a gafwyd yn barod megis cost paratoi'r cais cynllunio, y trwyddedau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cytundebau tir.

Cyfanswm y targed y gobeithir ei godi drwy'r cyfranddaliadau i gyd yw £290,000 + 10% wrth gefn = £319,000

Mae £25,200 o hyn eisoes wedi ei godi drwy gynllun cyfranddaliadau arloesi, gan adael £293,800 yn weddill i'w godi drwy'r cynnig diweddaraf hwn. Er cyfleustra, mae hwn wedi ei dalgrynnu i £300,000.

Yn seiliedig ar y costau cyfalaf yma, a'r amcangyfrifon a wnaed ar gyfer costau gweithredu a rhedeg, mae rhagamcanion ariannol wedi eu paratoi a'u cymeradwyo gan y Bwrdd a rhoddir crynodeb ohonynt ar y dudalen nesaf. Mae'r Cyfarwyddwyr yn cymryd cyfrifoldeb dros ba mor rhesymol yw'r Rhagamcanion yn y Cynnig hwn. Dangosir y rhagamcanion hyn yn adran 4.1.

Cyfrifir yr elw i'r aelodau yn ôl yr incwm a ragamcanir a'r gwariant yn ystod oes y System Hydro. Caiff y

swm blynyddol sydd ar gael i'w dalu fel llog ar gyfalaf yr Aelodau ei rannu rhwng nifer y Cyfranddaliadau a roddwyd er mwyn rhoi amcan o gyfradd yr elw. Bydd Trydan Cydweithredol Corwen yn cychwyn gweithredu pan fydd refeniw trydan a'r Tariff Cyflenwi Trydan yn cychwyn. Yr amcan strategol yw gwneud yn fawr o'r elw a ddaw o'r System Hydro a hyrwyddo egwyddorion ynni adnewyddadwy ar yr un pryd. Mae'r Rhagamcanion yn seiliedig ar brosiect sy'n parhau am 20 mlynedd i ddechrau.

Ar ddiwedd y cyfnod o 20 mlynedd, bydd yr incwm i'r fenter Gydweithredol yn gostwng yn gyflym oherwydd diwedd y taliadau Tariff Cyflenwi Trydan. Bydd cost y tyrbin wedi ei ddibrisio'n llawn ac mae'n debyg y bydd angen gwaith atgyweirio arno. Bydd y les yn dod i ben yr adeg hon a'r taliadau Tariff Cyflenwi Trydan yn gorffen. Mae'r achos busnes a'r modelu ariannol yn y ddogfen gyfranddaliadau hon yn seiliedig ar ad-dalu cyfalaf yr aelodau dros 20 mlynedd. Ond, gallai'r fenter gydweithredol benderfynu peidio â dirwyn y les i ben ar ddiwedd yr 20 mlynedd (22 mlynedd o ddyddiadau'r cytundeb les), ond parhau i weithredu am weddill y 40 mlynedd yn dibynnu ar yr hinsawdd economaidd a gwleidyddol ar yr adeg honno yn y dyfodol.

Byddai rôl y fenter gydweithredol yn y dyfodol y tu hwnt i 20 mlynedd yn benderfyniad i'r aelodau a'r cyfarwyddwyr ar y pryd.

4.1. Gostyngiad yn y Dreth

Mae'r cynllun wedi ei fwriadu i fod yn gymwys am ostyngiad treth. Y gostyngiad treth sydd ar gael i'r cynlluniau creu ynni cymunedol ar hyn o bryd yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (a'r Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau sy'n gysylltiedig). Gweler y disgrifiad llawn isod.

Mae polisi'r Llywodraeth ar Gymdeithasau a gostyngiad yn y dreth yn wynebu cyfnod o newid ar hyn o bryd. Mae Gostyngiad Treth i Fuddsoddiadau Cymdeithasol yn cael eu haddasu ar hyn o bryd a bydd yn cymryd lle'r gostyngiadau treth Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau i Gymdeithasau. Nid yw union fanylion y newid ar gael eto. Bydd y Gymdeithas yn cadw golwg agos ar ddatblygiadau drwy ei hymwneud â Sharenergy a bydd yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau fod y cyfranddaliadau a roddir ar ôl y newid yn cael eu gwneud yn unol â'r gostyngiad treth sydd yr un fath a'r rhai a gynnigir ar y pryd.

4.2. Gostyngiad Treth Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau

Mae'r Gostyngiad Treth Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau, a'r cynllun arall, y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau, yn gynlluniau gostyngiad treth sy'n cynnig gostyngiad ar dreth incwm. Pan fo hyn yn berthnasol, bydd yr unigolion sy'n prynu cyfranddaliadau yn cael ad-daliad ar dreth incwm y DU y byddan nhw wedi ei thalu. Mae'r gostyngiad yn 30%

ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau ac yn 50% ar gyfer y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau. Mae Trydan Cydweithredol Corwen wedi derbyn sicrwydd rhag-blaen gan CThEM fod y cynllun hwn yn gymwys ar gyfer gostyngiad treth y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau a'r cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau.

Trydan Cydweithredol Corwen

Mae'r Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau yn gymwys i'r £150,000 o gyfalaf cyntaf a dderbynnir gan Gymdeithas (gan gynnwys cyfranddaliadau ac unrhyw grant a dderbynnir gan y llywodraeth), a phan fydd y cyfranddaliadau wedi eu rhoi o fewn dwy flynedd i sefydlu'r busnes. Byddai gostyngiad treth Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (gostyngiad o 30%) yn gymwys i'r cyfranddaliadau hyn ar ôl y £150,000 cyntaf. (noder fod £25,200 o'r cyfranddaliadau eisoes wedi eu rhoi gan y Gymdeithas o dan y cynnig arloesi a £38,175 o grant a dderbyniwyd gan y llywodraeth).

Yn y cynnig hwn am gyfranddaliadau, bydd y cyfranddaliadau Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau'n cael ei roi ar sail y cyntaf i'r felin.

Noder na allwch hawlio mwy o ostyngiad treth nag yr ydych wedi ei dalu mewn treth incwm. Rhoddir y gostyngiad drwy leihau'r atebolrwydd treth, cyn belled â bod digon o atebolrwydd treth i dynnu ohono.

Enghraifft Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau

Mae Jenny yn buddsoddi £20,000 mewn cyfranddaliadau sy'n gymwys i'r Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau. Y gostyngiad Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau sydd ar gael yw £10,000 (£20,000 ar 50%) Mae ei hatebolrwydd treth am y flwyddyn (cyn gostyngiad Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau) yn £15,000 a gellir ei ostwng i £5,000 o ganlyniad i'w thanysgrifiad.

Am fanylion llawn gweler

<http://www.hmrc.gov.uk/seedeis/>.

Pe digwyddai bod yr aelodau'n tynnu eu cyfranddaliadau yn ôl yn y pen draw, mae eu cyfranddaliadau yn werth llai na'r pris prynu, y golled a ddioddefir (wedi tynnu'r 50% o ostyngiad cychwynnol) i'w dynnu o'r incwm at ddibenion treth yn y flwyddyn honno (neu'r flwyddyn flaenorol). Am fwy o fanylion ynglŷn â'r cynlluniau Buddsoddi mewn Mentrau, cynghorir chi i gysylltu â gwefan CThEM.

Bydd y Bwrdd yn ymdrechu i sicrhau fod y cyfranddaliadau hyn yn gymwys ar gyfer gostyngiad treth Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau a'r Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau. Ond, nid yw'r Cyfarwyddwyr mewn sefyllfa i warantu hyn. Dylai ymgeiswyr geisio eu cyngor eu hunain a ydynt yn gymwys i dderbyn gostyngiad treth Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau neu beidio.

4.3. Rhagamcanion incwm a gwariant 20 mlynedd

Blwyddyn	0	1	2	3	4	5	Blynyddoedd 6-10	Blynyddoedd 11-20	Blynyddoedd 1-20
Cynhyrchu (kWh)		135,000	135,000	135,000	135,000	135,000			
Elw / Colled									
Incwm tariff cyflenwi		21,641	22,290	22,958	23,647	24,357	133,192	333,404	581,488
Incwm o werthu trydan		7,020	7,301	7,593	7,897	8,212	46,260	124,759	209,042
Incwm o werthiant safleoedd arlein		0	0	0	0	0	0	0	0
LEC, Triad ayyb		675	695	716	738	760	4,154	10,399	18,138
Incwm		29,336	30,286	31,267	32,281	33,329	183,606	468,563	808,668
Dibrisiant dros 20 mlynedd		15,936	15,936	15,936	15,936	15,936	79,679	159,357	318,714
Costau gweithredu a gweinyddu		6,852	7,060	7,274	7,495	7,722	54,883	137,652	228,938
Gwariant (gan gynnwys dibrisiant)		22,788	22,996	23,210	23,430	23,657	134,562	297,009	547,652
Garged gweithredu		6,547	7,290	8,058	8,851	9,671	49,045	171,554	261,016
									0
Llog ar arian yn y banc		0	120	359	598	420	2,098	4,195	7,788
Llog i aelodau (colledion wedi eu cario drosodd)	0	-6,047	-6,895	-7,886	-8,902	-9,528	-48,065	-168,922	-256,245
Gwarged i'w ddosbarthu		500	515	530	546	563	3,077	6,826	12,558
Llif arian									
Balans agoriadol y banc		0	15,936	31,871	20,000	20,000			
Gwariant cyfalaf	-318,714								
Gwarged i'w ddosbarthu		500	515	530	546	563	3,077	6,826	12,558
Rhoi dibrisiant yn ôl		15,936	15,936	15,936	15,936	15,936	79,679	159,357	318,714
Cronfa gymunedol		-500	-515	-530	-546	-563	-3,077	-6,826	-12,558
Cyfalaf rhanddaliadau	318,714	0	0	-27,807	-15,936	-15,936	-79,679	-179,357	-318,714
Balans cau'r banc	0	15,936	31,871	20,000	20,000	20,000			
IRR aelodau (heb ostyngiad treth)	4.8%								
IRR aelodau (30% o ostyngiad treth)	7.8%								
IRR aelodau (50% o ostyngiad treth)	10.5%								
Cronfa gymunedol		500	515	530	546	563	3,077	6,826	12,558

4.4. Proffil yr elw a amcanir dros 20 mlynedd

Cyfrifir y Gyfradd elw fewnol dros y cyfnod o 20 mlynedd o'r cyfalaf a'r elw a ragamcanir bob blwyddyn. Mae'r tabl isod yn dangos yr elw tebygol y byddech yn ei dderbyn (cyfalaf a llog) dros y cyfnod o 20 mlynedd pe baech chi'n prynu 1000 o gyfranddaliadau.

Trydan Cydweithredol Corwen

- Hughes Limited yn ogystal â'r costau datblygu a dalwyd eisoes ac a gynhwyswyd yn y cyfranddaliadau arloesi blaenorol.
- 2) Mae chwyddiant ar bob incwm a gwariant ar wahân i'r trydan grid wedi ei fodelu ar 3% bob blwyddyn dros gyfnod o 20 mlynedd. Y gyfradd chwyddiant a ragdybir ar gyfer y trydan grid yw 4% y flwyddyn, h.y. 1% yn uwch na chwyddiant.
 - 3) Mae'r incwm yn seiliedig ar y Tariff Cyflenwi Trydan, ac allforio'r trydan am y pris gorau posibl. Noder bod y pris Tariff Cyflenwi Trydan am bob kWh wedi ei warantu am yr 20 mlynedd yn llawn.
 - 4) Mae dibrisiant yr offer yn llinol dros yr 20 mlynedd ac mae'n creu cronfa i ad-dalu cyfalaf yr aelodau. Dychwelir y cyfalaf i'r aelodau bob blwyddyn fel y bydd llif arian yn caniatáu, yn amodol ar gadw arian wrth gefn o fewn y fenter gydweithredol ac yn amodol ar fod yn gymwys i'r Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (h.y. dim dychwelyd cyfalaf o fewn y 3 blynedd gyntaf).
 - 5) Caiff y cyfraddau busnes eu rhagdybio fel bod yn sero am y pum mlynedd gyntaf oherwydd eithriad Cyngor Sir Ddinbych i fusnesau bychain. Nid oes cadarnhad a fydd hyn yn barhaol, ac mae'r model ariannol wedi rhagdybio y bydd hyn yn dychwelyd i lefel arferol o gyfraddau busnes ar ôl 5 mlynedd.
 - 6) Mae costau yswiriant wedi eu gosod ar £1000/blwyddyn - mae hwn yn amcangyfrif ar sail cynlluniau tebyg mewn mannau eraill.
 - 7) Mae costau gweinyddol y fenter gydweithredol wedi eu gosod ar £3000/blwyddyn. Dyma'r pecyn safonol ar gyfer 'mentrau cydweithredol bychain' gan Sharenergy sy'n cynnwys cynnal a chadw'r bas data aelodaeth, ffôn, e-bost a chymorth drwy'r post i'r aelodau, paratoi papurau'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a'r adroddiad blyneddol, FCA a thaliadau rheoleiddio eraill. Bydd Trydan Cydweithredol Corwen yn cynhyrchu cyfrifon blyneddol ac fel busnes bychan, bydd yn gwneud cais am gael ei eithrio rhag archwiliad.
 - 8) Mae'r llog ar yr arian yn y banc wedi ei osod ar 1.5%.
 - 9) Mae pob elw wedi eu clustnodi ar gyfer tâl dibrisiant neu eu dosbarth i'r aelodau neu eu dosbarthu fel cronfa gymunedol fel nad yw'r rhagamcanion yn rhagdybio atebolrwydd ar gyfer Treth Gorfforaethol. Noder fod aelodau'n debygol o fod yn atebol i dalu Treth Incwm ar y taliadau llog a dderbynir.
 - 10) Disgwylir i'r arian gwariant misol fod yn fychan a bydd y cynhyrchu a'r incwm o'r Tariff Cyflenwi Trydan yn ddigon i gynnwys hynny. Mae'r Rhagamcanion yn rhagweld y bydd Trydan Cydweithredol Corwen yn gadarnhaol o ran arian bob blwyddyn o gychwyn y gweithrediadau.
 - 11) Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar amserlen 20 mlynedd. Ar ôl yr amser hwn, bydd yr incwm yn lleihau'n sylweddol wrth i'r taliadau Tariff Cyflenwi Trydan ddod i ben. Bydd parhad y fenter Gydweithredol y tu hwnt i 20 mlynedd ar ddisgresiwn yr aelodau, ond mae'r hyfywedd ariannol wedi ei gyfrifo gan ystyried oes o 20 mlynedd yn unig.

4.7. Cronfa gymunedol

Bydd rhan o'r gwarged, unwaith y bydd yn weithredol, yn cael ei roi i'r naill du i ffurfio cronfa gymunedol. Mae'r model ariannol presennol yn seiliedig ar roi £500 o'r gwarged ariannol i gronfa gymunedol, a'r gweddill

yn cael ei ddefnyddio i dalu llog ar gyfranddaliadau'r aelodau.

Cyfrifoldeb yr aelodau a'r bwrdd fydd penderfynu sut y dylid dosbarthu hwn.

5. FFACTORAU RISG

Mae pob gweithgaredd buddsoddi a masnachol yn golygu risg a dylai buddsoddwyr gymryd cyngor priodol a gwneud eu hasesiad risg eu hunain gan gadw mewn cof agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol y cyfle hwn i fuddsoddi. Tynnir sylw at y canlynol:

Risgiau buddsoddi cyffredinol

- Gall gwerth y cyfranddaliadau godi a gostwng yn ol • gwerth y busnes ei hun.
- Ni fydd modd trosglwyddo Cyfranddaliadau na'u masnachu ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig.
- Gall yr aelodau sydd am dynnu eu cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl, wneud cais i'r Bwrdd ar ôl y drydedd flwyddyn o weithredu Mae tynnu arian cyfalaf yn ôl yn digwydd ar ddisgresiwn y Bwrdd.

5.1. Risgiau'r diwydiant ynni adnewyddadwy

Trydan Cydweithredol Corwen

- Gall polisi'r llywodraeth tuag at ynni adnewyddadwy newid. Drwy gydol gweithrediad y Tariff Cyflenwi Trydan a chynlluniau blaenorol tebyg megis RO a NFFO, mae'r Llywodraeth wedi cadw'r ymrwymiad i'r broses drwy'r cenedlaethau sy'n sicrhau y bydd y tariff y cofrestrir prosiect ar ei gyfer ar gychwyn y gweithrediadau, yn aros yr un fath drwy gydol cyfnod y Tariff Cyflenwi Trydan, (sef 20 mlynedd yn achos y cynllun trydan dwr). Felly, ni ddylai'r arian o'r Tariff Cyflenwi Trydan i Drydan Cydweithredol Corwen gael ei effeithio gan unrhyw newidiadau i'r Tariff yn y dyfodol. Mae'r taliad hwn wedi ei gysylltu trwy indecs i'r RPI hefyd.
- Gallai dyfeisiadau a datblygiadau technoleg newydd beri i offer a thechnolegau cyfredol fod yn ddiwerth, er bod gweithrediadau o'r fath angen amser paratoi helaeth ac maent yn annhebygol o wneud prosiectau ynni adnewyddadwy presennol yn segur.
- Gallai newidiadau tymor hir i batrymau'r tywydd arwain at lefelau cynhyrchu is. Ond, nid oes tystiolaeth y gwyr Trydan Cydweithredol Corwen amdani y bydd hyn yn effeithio ar gynhyrchu trydan dŵr yn y safle yma.
 - Gallai amodau tywydd anarferol yn y tymor byr effeithio ar lefelau cynhyrchu, er bod y patrymau cyffredinol y tu allan i'r ffiniau yn anhebygol.
- Gallai'r costau gweithredol godi yn gynt na'r disgwyl yn ystod oes y Prosiect.

5.2. Risgiau penodol i Gynnig Cyfranddaliadau Trydan Cydweithredol Corwen

- Efallai na fydd y prosiect yn llwyddo i godi'r cyfalaf angenrheidiol drwy'r cyfranddaliadau. Rydym yn credu y bydd cudd cyffredinol y prosiect a'r elw targed i'r aelodau'n denu swm angenrheidiol, yn seiliedig ar brofiad mentrau eraill o natur debyg.
- Mae'r gostyngiadau treth yn wynebu cyfnod o newid oherwydd datganiadau a wnaed yn Natganiad yr hydref ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r gostyngiadau treth y tu hwnt i 6ed Ebrill 2015 yn dal yn ansicr (gweler adran 4.1).

5.3. Risgiau penodol i weithrediad tymor hir Trydan Cydweithredol Corwen

- Bydd gwarantau ac yswiriant mewn lle pe digwyddai i'r peiriannau neu'r offer dorri. Bydd difrod damweiniol a maleisus wedi ei gynnwys hefyd yn yr yswiriant a bydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn lle. Ond, byddai methiant yr offer oherwydd amgylchiadau eithriadol yn cynyddu'r costau cynnal a chadw a byddai hyn yn cael effaith ar incwm y fenter gydweithredol.
- Cydweithredol Corwen yn gyfrifol am bob cost fydd ynghlwm â thynnu ac ailosod y system a'r offer arall, ac ni fydd y Tirfeddiannwr indemnio Trydan Cydweithredol Corwen am golli incwm. Mae'n bosibl y bydd / na fydd yswiriant yn talu am gostau Trydan Cydweithredol Corwen mewn amgylchiadau o'r fath, ac o ganlyniad gallai'r elw i'r aelodau gael ei effeithio ac mewn achosion o gyfnodau hir neu barhaus o waith, gallai hyn olygu na fydd buddsoddiad gwreiddiol yr aelod yn cael ei ad-dalu.
- Mae'r llywodraeth wedi eithrio systemau trydan hydro o gofrestrriad y Cynllun Ardystio micro gynhyrchu. Pe bai'r eithriad hwn yn dod i ben neu'n cael ei ddadwneud, a'r system a ddewiswyd gennym ddim yn gymwys o dan y cynllun yna efallai na fyddai'r prosiect yn gymwys i dderbyn y Tariff Cyflenwi Trydan. Ond, ystyrir mai risg bychan yw hwn.
- Rydym ni'n credu fod Trydan Cydweithredol Corwen yn gymwys i gael ei eithrio rhag talu cyfraddau busnes i fusnesau bychain. Pe na bai hyn yn wir, efallai y byddai'n rhaid i'r prosiect dalu cyfraddau busnes a fyddai'n lleihau'r incwm net.
- Pe digwyddai bod y tirfeddiannwr angen gwneud gwaith hanfodol ar y safle yn ystod cyfnod y cynllun, bydd Trydan

5.4. Sensitifrwydd i sefyllfaoedd

Mae sawl ffactor fydd yn effeithio ar elw cyffredinol y cyfranddaliadau ac yn peri risg i'r buddsoddiad. Dwy o'r risgiau yma yw 1) yr ynni a gynhyrchir yn flynyddol, a 2) cyfradd chwyddiant costau ynni.

Er mwyn arddangos sensitifrwydd yr elw i'r risgiau posibl, mae sefyllfaoedd wedi eu creu o dan wahanol ragdybiaethau er mwyn adnabod yr amrywiaeth yn yr elw yn y sefyllfaoedd hyn.

Y sefyllfaoedd sydd wedi eu modelu yw cynhyrchu ynni, a'r chydiant ym mhris trydan. Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiadau hyn.

Amrywiaeth yng nghyfradd yr elw oherwydd yr amrywiaeth ym mhris indecs trydan a'r ynni a gynhrychir yn flynyddol.				
		Chwyddiant ym mhris trydan (gan gymryd cyfradd gyfartalog o 2.5% RPI)		
		0% uwch na RPI	1% uwch na RPI	2% uwch na RPI
Ynni a Gynhrychir	10% yn is na'r rhagolygon (121,500kWh)	3.3%	3.5%	3.8%
	Rhagolygon canolog wedi eu defnyddio ar gyfer modelu (135,000kWh)	4.6%	4.8%	5.1%
	10% yn uwch na'r rhagolygon (148,500kWh)	5.8%	6.1%	6.3%

Noder o 2003 i 2013, bod prisiau tyrdan domestig wedi codi ar gyfartaledd tua 5.6% yn uwch na CPI (ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/monthly-domestic-energy-price-stastics>, ar 22/01/2015) sydd tua 4.6% yn uwch na RPI. Mae CPI (indecs pris defnyddiwr) fel arfer tua 1% yn is na RPI (indecs pris manwerthu).

6. RHEOLAETH A GWEINYDDIAETH

6.1. Trydan Cydweithredol Corwen

Mae Trydan Cydweithredol Corwen Cyfyngedig yn Gymdeithas Gofrestredig, rhif cofrestru 32341R, a chafodd ei hymgorffori a'i chofrestru gydag Awdurdod Ymddygiad Ariannol y Du ar 20fed Mawrth 2014. Mae ei gwreiddiau yng Nghymru gyda swyddfa gofrestredig yng Ngwesty Owain Glyndŵr, Y Sgwâr, Corwen, LL21 0DL.

Mae Cymdeithas Gofrestredig yn ffurf gyfreithiol sy'n rhoi strwythur menter gydweithredol. Mae'n eiddo i'r gymuned ac yn cael ei gweithredu er budd y gymuned ac/neu ei haelodau. Yr aelodau sy'n ethol cyfarwyddwyr ac mae gan bob aelod un bleidlais yng nghyfarfod yr aelodau waeth faint o gyfranddaliadau sydd ganddynt. Caiff yr aelodau eu gwarchod gan atebolrwydd cyfyngedig ac maent wedi eu rhwymo i gyfrannu i gost gychwynnol eu cyfranddaliadau'n unig. Caiff Cymdeithas Gofrestredig ei rheoli gan y Rheolau, yn bennaf mewn ffurf safonol, a'r rheiny wedi eu cymeradwyo a'u cofrestru o fewn yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae copi o Reolau Trydan Cydweithredol Corwen ar gael o wneud cais i'r fenter Gydweithredol (gweler cefn y ddogfen Gynnig hon am fanylion cyswllt).

6.2. Y Bwrdd

Mae'r bwrdd presennol yn fwrdd trosiannol, at ddibenion sefydlu'r fenter Gydweithredol, rhedeg y cyfranddaliadau a goruchwyllo sefydlu'r System Hydro. Cynhelir etholaethau'r Bwrdd ar gyfer aelodaeth newydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf.

Cyfarwyddwr: Ifor Sion

Rwy'n hannu o Wyddelwern, ac yna bŵm yn byw ym Mryneglwys am ychydig cyn dod i Gorwen ym 1985.

Ar ôl ennill gardd mewn Electroneg ym Mhrifysgol Bangor, cychwynnais fy musnes trydanol fy hun. Yn ystod y cyfnod hwnnw cyflawnais y gwaith o ail-wifro Palé Hall, Llandderfel, sy'n berchen ar ei system hydro 60kW ei hun, wedi ei gosod ym 1918 ac yn dal i weithio'n llawn heddiw.

Bellach, a thros yr 16 mlynedd diwethaf, (newid mawr) rwy'n rhedeg Gwesty'r Owain Glyndŵr yng Ngorwen.

Gyda Nant Cawrddu yn llifo o dan y gwesty, mae gen i ddiddordeb mawr yn llwyddiant y prosiect hwn.



Cyfarwyddwr: Robert Roberts

Rwy'n aelod gweithgar o Gyngor Tref Corwen, Partneriaeth Corwen a Phwyllgor Cerddwyr Corwen. Rwy'n awyddus i helpu'r gymuned yng Nghorwen i wella'r ardal a hefyd i helpu i ddod â mwy o ymwelwyr i'r rhan hardd hon o Ogledd Cymru. Dylai'r cynllun hydro gyfrannu peth cymorth ariannol i'r gymuned drwy gynhyrchu ynni gwyrdd:- bydd pawb ar eu hennill!



Cyfarwyddwr: Michael Paice

Yn wreiddiol, rwy'n dod o Greenwich yn Llundain ond rwyf wedi bod yn byw mewn amryw o lefydd o gwmpas y DU gan gynnwys Gogledd Iwerddon a Norfolk.

Symudais i Gynwyd 8 mlynedd yn ôl gyda fy mhartner Jen. Rydym yn byw bywyd eithaf cynhaliol gyda mochyn, ambell ddafad o frid prin, hwyaid ac ieir. Rydym yn tyfu ein ffrwythau a'n llysiau ein hunain. Gosodom baneli solar ddwy flynedd yn ôl ac rydym wedi gweld elw da yn dod ohonynt.

Rwyf wedi gweithio fel gwirfoddolwr gyda Grŵp Adfer y Dyfrffyrdd ar gamlesi ar hyd a lled Lloegr dros y 23 mlynedd diwethaf. Rwyf bellach yn ymwneud a Chymdeithas Reilffordd Corwen a Gŵyl Gerdded Corwen.

Rwy'n gobeithio y bydd y cynllun hydro hwn yn gwella ein tref ac yn annog eraill i gymryd rhan.



Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y Cwmni: Joel Scott

Mae gen i gefndir mewn peirianeg fecanyddol ac rwyf wedi gweithio mewn amrywiaeth o rolau yng ngwaith cemegol Monsanto yn lleol ers 23 mlynedd. Y tu allan i'r gwaith rwyf wedi bod ar sawl pwyllgor, ac yn parhau i fod ar bwyllgorau yng Nghorwen a'r cyffiniau, gan gynnwys ysgrifennydd i Glwb Criced Sir Feirionydd a Chorwen, cyn drysorydd a warden eglwys y Plwyf Carrog, aelod o bwyllgor Parc y Gofgolofn Ryfel, ac yn fwy diweddar yn un o sylfaenwyr ac yn ysgrifennydd Cymdeithas Rheilffordd Corwen. Rwy'n gweld y prosiect hydro hwn yn ddolen hanfodol i ffyniant tref Corwen yn y dyfodol gan ei fod yn cynnig arian er budd y gymuned, yn ogystal ag uno pobl y dref, addysgu ein pobl ifanc (gan y byddai'n brosiect gwych i'n hysgolion ei ddilyn) a gwneud ein rhan i leihau ôl troed carbon ein byd.

Rwy'n briod â merch leol ac mae gennym bedwar o blant a phedwar o wyrion.



6.3. Cyfranddaliadau presennol ac arfaethedig y Cyfarwyddwyr

Mae'r cyfarwyddwyr yn bwriadu cymryd cyfranddaliadau gwerth £XXX [i'w ddiweddar] sef cyfanswm y cynnig hwn a'r cynnig arloesi blaenorol.

6.4. Datgeliad

Nid oes yr un o gyfarwyddwyr gweithredol Trydan Cydweithredol Corwen wedi derbyn unrhyw euogfarnau, na thros o leiaf bum mlynedd (am unrhyw drosedd o dwyll neu fel arall), nac wedi bod yn rhan o unrhyw fethdaliadau, datodiad na derbynyddiad, nac

wedi derbyn unrhyw wrthgyhuddiad neu ataliad gan awdurdod statudol neu reoleiddiol na chorff proffesiynol penodedig, nac wedi eu diarddel o unrhyw swyddogaeth gan unrhyw lys.

6.5. Gwrthdaro Buddiannau

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau ar hyn o bryd.

6.6. Cydnabyddiaeth

Nid oes unrhyw gydnabyddiaeth wedi ei dalu gan Drydan Cydweithredol Corwen i'r Cyfarwyddwyr. Pan fydd y System Hydro'n cynhyrchu trydan, bydd gan bob Cyfarwyddwr yr hawl i ffioedd ac/neu gostau sydd heb fod yn fwy na £50 y flwyddyn yn ychwanegol at gostau

teithio. Bydd ceisiadau am gyfranddaliadau gan y Cyfarwyddwyr yn cael eu bodloni'n llawn, ond nid oes cynlluniau pensiwn, cynlluniau dewis cyfranddaliadau, ac eithrio ad-dalu costau, nid oes unrhyw fudd arall i Gyfarwyddwyr Trydan Cydweithredol Corwen.

6.7. Arferion y Bwrdd

Mae'r Cyfarwyddwyr ac Ysgrifennydd y Cwmni yn gweithredu'n unol a'r Rheolau. Nid oes ganddynt gytundebau gwasanaeth. Ni fydd gan Drydan Cydweithredol Corwen unrhyw gyflogeion ac nid yw'r busnes yn ddibynol ar unigolion allweddol. Caiff y gweithrediadau o ddydd i ddydd eu rheoli gan y fenter Gydweithredol o dan oruchwyliaeth y bwrdd. Bydd y Bwrdd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn y pen draw i'r Aelodau.

Fel Cymdeithas Gofrestredig, mae Trydan Cydweithredol Corwen yn cydymffurfio a gofynion a rheolau statudol yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Gan na fydd y Cyfranddaliadau wedi eu rhestru, nid yw'n ofynnol i Drydan Cydweithredol Corwen gydymffurfio a'r Cod Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol.

Mae Trydan Cydweithredol Corwen yn ymdrechu i hyrwyddo Gwerthoedd ac Egwyddorion mentrau Cydweithredol:

- **Helpu'ch hunan a chyfrifoldeb drosoch eich hunan**
- **Democratiaeth a chydaddoldeb**
- **Gonestrwydd a bod yn agored**
- **Cyfrifoldeb cymdeithasol**
- **Hunanreolaeth ac annibyniaeth**
- **Cyfranogiad economaidd yr aelodau**
- **Cyfle i addysgu**
- **Ystyriaeth i'r gymuned**
- **Cydweithio ymysg mentrau cydweithredol**

6.8. Accounts

Ymgorfforwyd Trydan Cydweithredol Corwen ar 20fed Mawrth 2014. Daw ei flwyddyn ariannol i ben ar 31ain Rhagfyr. Ar adeg cychwyn cyhoeddi'r cyfranddaliadau,

mae nifer y cyfranddaliadau a roddwyd yn 25,200 drwy'r cynllun cyfranddaliadau arloesi, a rhoi 4 cyfranddaliad yr un i'r cyfarwyddwyr sylfaenol.

6.9. Polisi Buddran

Trydan Cydweithredol Corwen

Bydd cyfranddaliadau'r aelodau yn denu taliad llog blynyddol mewn ôl-daliadau ac nid oes polisi ar hyn o bryd i dalu buddrannau (gweler y rhestr dermau am

ddiffiniad o fuddrannau.). Bydd cyfraddau llog yn amrywio yn ôl perfformiad ariannol.

6.10. Gweithgaredd Cyfreithiol

Ni fu unrhyw weithgaredd llywodraethol, cyfreithiol na chyflafareddiad yn ymwneud a'r Prosiect na Thrydan Cydweithredol Corwen ac nid oes yr un yn aros neu yn

bygwth allai gael effaith sylweddol ar safle ariannol neu elw Trydan Cydweithredol Corwen.

6.11. Rheolau'r fenter Gydweithredol

Caiff Cymdeithasau Cofrestredig megis Trydan Cydweithredol Corwen, eu rheoli gan y Rheolau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (nid trwy'r Gymdeithas Memorandwm ac Erthyglau).

Mae copi o'r Rheolau ar gael gan Drydan Cydweithredol Corwen (gweler y manylion cyswllt ar gefn y cynnig hwn).

6.12. Mwy o wybodaeth

Mae'r dogfennau eraill y sonnir amdanynt yn y Cynnig hwn ar gael gan Drydan Cydweithredol Corwen (gweler y manylion cyswllt ar gefn y Cynnig hwn).

Mae gwybodaeth gyffredinol gan drydydd parti yn y Ddogfen Gynnig hon wedi ei gyflwyno'n gywir a chyn

belled ag y gŵyr y Cyfarwyddwyr ac y gallant gasglu o wybodaeth a gyhoeddwyd gan y trydydd parti hwnnw, nid oes ffeithiau wedi eu heithrio fyddai'n golygu bod yr wybodaeth hon yn anghywir neu'n gamarweiniol.

7. CYNNIG CYFRANDDALIAD

7.1. Rhesymau dros y Cynnig defnydd o'r arian

Gwneir y Cynnig hwn fel y gellir:

- Adeiladu system Hydro Nant Cawrddu sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio a chaniatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
- Rhoi budd i'r aelodau o gael Trydan Cydweithredol Corwen yn berchen ar y System Hydro.

- Tynnu aelodau o'r gymuned leol cyn belled â bo modd.

Gwneud cyfraniad gan Drydan Cydweithredol Corwen a'i Aelodau i hyrwyddo ynni adnewyddadwy a lleihau effeithiau negyddol dibynnu ar ffynonellau ynni nad ydynt yn adnewyddadwy a'u heffaith ar y Newid Hinsawdd.

7.2. Cynnig Cyfranddaliadau

Cynigir 300,000 o Gyfranddaliadau cyffredin £1 am werth llawn ac i'w dalu'n llawn ar ôl derbyn cais ar Delerau ac Amodau'r Ddogfen Gynnig hon. Mae'r Cyfranddaliadau, na ellir eu masnachu ar unrhyw gyfnewidfa stoc, wedi eu creu o dan Ddeddf Gymdeithas Gydweithredol a Budd Cymunedol 2014.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn tystysgrifau cyfranddaliadau a bydd eu manylion a'u daliadau yn cael eu cofnodi ar gofrestr gyfranddaliadau i'w chadw gan Shrewsbury, SY1 2DP, ar ran Trydan Cydweithredol Corwen, yn The Pump House, Coton Hill, Shrewsbury, SY1 2DP, neu gyfeiriad unrhyw fusnes olynol. Bydd unrhyw un neu sefydliad sy'n derbyn Cyfranddaliadau'n dod yn Aelod o Drydan

Cydweithredol Corwen, gyda hawliau aelod fel y'u diffinnir yn y Rheolau. Y prif egwyddorion yw:

- Un bleidlais i bob daliad ar benderfyniadau'r Aelodau, gan gynnwys rhai'n ymwneud â phenodi Cyfarwyddwyr.
- Yr hawl i dderbyn taliad llog blynyddol cyfrannol fel elw ar y buddsoddiad mewn cyfranddaliadau (yn amodol ar yr elw sydd ar gael).
- Yr hawl i ddychwelyd eu tanysgrifiad gwreiddiol o gyfalaf ar ddiwedd oes y System Hydro (ar yr amod bod asedau gwarged ar gael ac unrhyw fusnes newydd i Drydan Cydweithredol Corwen).
- Fel Aelod, cymwys i gael eich ethol i'r Bwrdd.

7.3. Taliad / buddran llog

Telir llog ar falans cyrif pob Aelod fydd yn adlewyrchu'r perfformiad ariannol blynyddol. Mae pob Cyfranddaliad a'r hawl hefyd mewn theori i ran gyfartal mewn unrhyw fuddran a gyhoeddir, er nad yw'n fwriad cyhoeddi buddrannau yn ychwanegol at daliadau llog blynyddol. Cyhoeddir y dyddiad y bydd yr hawl i log

(neu unrhyw fuddran) yn codi, bob blwyddyn. Rhagwelir y bydd unrhyw log (neu fuddran) nas hawli'r am gyfnod o 7 mlynedd yn cael ei ddileu er budd pob Aelod. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar daliadau llog a buddran ac nid oes unrhyw drefniadau arbennig wedi eu sefydlu ar gyfer deiliaid dibreswyl.

7.4. Hawliau pleidleisio

Mae gan bob Aelod un bleidlais, waeth faint o Gyfranddaliadau sydd ganddynt. Nid oes unrhyw hawliau i rag brynu.

7.5. Yr hawl i ran o'r elw/gwarged

Mae gan bob Aelod yr hawl i ran o'r llog (a buddran) a gyhoeddir o'r elw blynyddol, megis taliadau i'w rhannu'n gyfartal rhwng cyfanswm y Cyfranddaliadau a gyhoeddwyd. Golyga hyn fod gan Aelod sydd â 10,000 o gyfranddaliadau ddim ond un bleidlais, ond bydd yn derbyn llog neu fuddran ar y 10,000 o gyfranddaliadau. Pan ddaw'r system Hydro i ben ar ddiwedd ei oes,

gallai'r Aelodau ddewis diddymu Trydan Cydweithredol Corwen, ac yn yr achos hwnnw, sylweddoli'r yr asedau a defnyddir yr arian net a ddaw o hynny i ad-dalu cyfran cyfalaf yr Aelodau. Caiff unrhyw warged ei dalu i'r Aelodau pro-rata yn unol â nifer y Cyfranddaliadau sydd wedi eu rhoi bryd hynny.

7.6. Darpariaeth adbryniad

Trydan Cydweithredol Corwen

Efallai y bydd Cyfranddaliadau'n cael eu hadbrynu yn ôl y Rheolau. Nid oes gan yr aelodau'r hawl i dynnu cyfran cyfalaf yn ei ôl ond mae gan Fwrdd y fenter Gydweithredol yr hawl i ganiatáu i Gyfranddaliadau yn y fenter Gydweithredol gael eu tynnu nôl drwy

gytundeb rhwng y Bwrdd a'r aelod. Gall yr aelodau wneud cais i dynnu cyfran cyfalaf yn ei ol ar ôl tair blynedd o weithredu. Yn ogystal â hynny, mae gan y Bwrdd y pŵer i ddychwelyd cyfalaf i'w aelodau yn ôl ei ddisgresiwn.

7.7. Trethu

Bydd taliadau llog a wneir i Aelodau yn atebol i gael eu trethu yn y DU. Disgwylir y bydd taliadau crynswth yn

cael eu gwneud ac y bydd aelodau'n gyfrifol am ddatgelu'r incwm hwn ar eu ffurflenni treth.

7.8. Darpariaethau ar farwolaeth Aelod

Yn unol â rheol 22 Trydan Cydweithredol Corwen, ar farwolaeth aelod o'r fenter Gydweithredol, gellir trosglwyddo eu cyfranddaliadau i'r cynrychiolydd personol, fydd a'r hawl i'w cadw, gwneud cais i dynnu

cyfalaf cyfran yn ol neu eu trosglwyddo i unrhyw un arall sy'n gymwys i fod yn aelod o'r fenter Gydweithredol.

8. TELERAU AC AMODAU

8.1. Cymhwyster

Mae'r Cynnig hwn ar gael i unrhyw un, sydd dros 16 oed, ac yn bodloni gofynion aelodaeth y Rheolau.

8.2. Lleiafswm a mwyafswm y daliadau

Lleiafswm nifer y Cyfranddaliadau y gellir gwneud cais amdanynt yw 250 a'r mwyafswm yw 95,000.

8.3. Y drefn ymgeisio

- Cynghorir unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymateb i'r Cynnig hwn i ofyn am gyngor ariannol annibynnol neu gyngor arall priodol.
- Gwneir cais am gyfranddaliadau gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais a dilyn y Nodiadau Canllaw.
- Drwy gyflwyno Ffurflen Gais mae Ymgeisydd yn cynnig tanysgrifio, ar y Telerau ac Amodau a gynhwysir yn y Ddogfen hon, ar gyfer y nifer o Gyfranddaliadau a nodir, neu nifer llai a gaiff eu rhoi.
- Mae ymgeisydd sy'n derbyn Cyfranddaliadau yn cytuno i aelodaeth awtomatig o Drydan Cydweithredol Corwen a bydd yn cadw at ei rheolau.
- Unwaith y bydd cais wedi ei wneud, ni ellir ei dynnu nôl.
- Derbynnir ceisiadau niferus cyn belled nad ydynt yn golygu y bydd Aelod yn dal mwy na'r terfyn statudol o 95,000 o gyfranddaliadau. Mae'r uchafswm nifer hwn yn un o amodau'r gostyngiad treth sy'n nodi na all unrhyw un cyfranddaliwr (neu grŵp o gyfranddalwyr gyda chyswllt ariannol) fod yn dal mwy na 30% o'r cyfranddaliadau er mwyn cymhwyso ar gyfer y gostyngiad treth.

8.4. Amserlen y Cynnig

Agorir y cynnig am gyfranddaliadau ar gyfer ceisiadau o'r 15fed Chwefror 2015. Bydd y cynnig yn parhau i fod yn agored nes y bydd y swm targed o 300,000 o gyfranddaliadau wedi ei fodloni. Os na fydd y targed wedi ei gyrraedd o fewn tri mis, bydd y cyfarwyddwyr

yn penderfynu a ddylid parhau gyda'r cynnig neu gau'r prosiect a dychwelyd yr arian.

Os bydd y cynnig am gyfranddaliadau'n llwyddiannus, mae'r Bwrdd yn disgwyl i'r amserlen ganlynol weddu:

Chwefror 2015	Lansio'r cynnig am gyfranddaliadau
Mawrth 2015	Cyhoeddi cyfran y ceisiadau a dderbyniwyd erbyn diwedd Mawrth.
Mai 2015	Cwblhau'r cynnig am gyfranddaliadau
Gorffennaf 2015	Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol cyntaf
	Dechrau adeiladu
Gorffennaf 2016	Comisiynu'r generadur

8.5. Canlyniadau os na fydd y Cynnig yn llwyddiannus

Os codir swm sy'n llai na chyfanswm y Cynnig, ni fydd y Bwrdd yn parhau i ddatblygu'r System Hydro. Dychwelir yr arian Cais yn llawn i'r Ymgeiswyr cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Ni fydd unrhyw un o

Drydan Cydweithredol Corwen, ei Gyfarwyddwyr na chynghorwyr yn gyfrifol am golli llog neu unrhyw fudd arall a ddioddefir gan yr Ymgeiswyr yn ystod y cyfnod y bydd yr arian gan Drydan Cydweithredol Corwen.

8.6. Ymrwymadau a chadarnhad gan yr Ymgeiswyr

Trydan Cydweithredol Corwen

Mae pob Ymgeisydd, ar ôl cyflwyno Ffurflen Gais yn cadarnhau ei fod ef/hi:

- yn bodloni'r meini prawf cymhwyso.
- Ddim yn gwneud ceisiadau niferus am gyfanswm o fwy na 95,000 o gyfranddaliadau.
- Nid yw'n dibynnu ar unrhyw wybodaeth neu sylwadau yn ymwneud a'r Cynnig am Gyfranddaliadau gyda Thrydan Cydweithredol

Corwen, neu'r System Hydro nad yw wedi ei gynnwys yn y Ddogfen Gynnig hon.

- Bydd yn darparu pob gwybodaeth a dogfennaeth ychwanegol y gwneir cais amdani gan Drydan Cydweithredol Corwen mewn perthynas â'u cais; gan gynnwys cyswllt a threthiant, gwyngalchu arian neu reoliadau eraill.

Bydd unrhyw un sy'n llofnodi Ffurflen Gais ar ran rhywun arall yn cadarnhau bod ganddynt yr awdurdod i wneud hynny.

8.7. Gweithdrefnau ar ol derbyn Ceisiadau Trydan Cydweithredol Corwen

- Cyflwynir sieciau/ drafft banc ceisiadau ar ol eu derbyn a gellir eu gwrthod os na fyddant yn clirio wrth eu cyflwyno'r tro cyntaf.
- Gellir cadw Arian Ceisiadau Dros Ben hyd nes y bydd sieciau Ymgeiswyr llwyddiannus wedi clirio.
- Gellir gwrthod ceisiadau cyfan, neu rannol, neu eu gwneud yn llai, heb orfod rhoi rheswm.
- Bydd Arian Cais ar gyfer unrhyw Geisiadau a wrthodir neu a leiheir yn cael eu dychwelyd drwy siec wedi ei chroesi neu drosglwyddiad banc, heb fod yn hirach na mis ar ol diwedd y Cyfnod Cynnig.
- Nid oes llog yn daladwy ar Arian Cais a gyflwynir ac a ddychwelir wedyn.
- Gellir derbyn ceisiadau ar Ffurflenni Cais anghyflawn neu anghywir fel pe baent yn gyflawn ac yn gywir.
- Mae Trydan Cydweithredol Corwen yn dal yr hawl i beidio â mynd i ohebiaeth gydag Ymgeiswyr ar ol cyhoeddi tystysgrifau cyfran neu ddychwelyd yr Arian Cais.
- Cyhoeddir canlyniadau'r Cynnig i'r aelodau o fewn mis i gau'r Cynnig.
- Cyhoeddir tystysgrifau cyfandaliadau i Ymgeiswyr llwyddiannus fis ar ôl y Cyfnod Cynnig.

8.8. Trefniadau prisio, masnachu a delio

Mae'r Bwrdd wedi penderfynu cynnig Cyfranddaliadau am werth o £1 yr un. Bwriada Trydan Cydweithredol Corwen dalu llog ar gyfranddaliadau'r Aelodau bob blwyddyn o'r adeg pan fydd y cynhyrchu trydan yn

cychwyn, fel na fydd yr elw a gedwir yn cronni. Mae gwerth sylfaenol pob Cyfranddaliad yn debygol o aros yn £1 a bydd unrhyw adbrynu Cyfranddaliadau yn digwydd am eu llawn werth.

8.9. Cyfraith Lywodraethu

Mae'r Cynnig hwn yn un o gyfres drwy'r DU sy'n cael ei reoli gan y fenter Gydweithredol Sharenergy ac felly er mwyn lleihau costau'r Ddogfen Gynnig hon a'r Telerau

ac Amodau, maent yn amodol ar gyfraith Cymru a Lloegr.

9. RHESTR DERMAU

Echdynnu Y gair a ddefnyddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gyfeirio at dynnu dŵr o ddyfrffos.

Ymgeisydd Ymgeisydd am Gynnig Cyfranddaliadau drwy gyflwyno Ffurflen Gais.

Ffurflen Gais Y ffurflen yn y Ddogfen Gynnig hon y mae'n rhaid ei chwblhau a'i dychwelyd yn unol â Thelerau ac Amodau'r Cynnig hwn a'r Nodiadau Canllaw.

Arian Cais Cyfanswm crynswth yr arian a ddaw o'r Cynnig hwn.

Bwrdd Bwrdd Cyfarwyddwyr Trydan Cydweithredol Corwen.

Newid yn yr Hinsawdd Y dywediad a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio'r patrymau tywydd sy'n newid o ganlyniad uniongyrchol i gynhesu byd eang gan gynnwys cynnydd yn y stormydd sy'n digwydd a dwyster stormydd a sychder.

CO₂ Carbon deuocsid, nwy naturiol a gynhyrchir yn sgil llosgi tanwydd ffosil ac ystyrir mai dyma brif achos cynhesu byd eang.

Cyfarwyddwyr Cyfarwyddwyr Trydan Cydweithredol Corwen.

Buddran (mewn cymdeithas gydweithredol) yw dyraniad yr elw a delir i'r aelodau yn ôl disgrisiwn, yn seiliedig ar weithrediadau'r aelodau gyda'r fenter gydweithredol ac nid ar faint y cyfalaf a fuddsoddwyd.

Tariff Cyflenwi Trydan Ysgogiad i ficro gynhyrchu hyd at 5MW a gyflwynwyd gan Lywodraeth EM ar 1af Ebrill 2010 o dan Ddeddf Ynni 2008.

kW (kilowatt) Uned sy'n mesur pŵer ac sy'n cyfateb i 1 mil Watt.

kWh (kilowatt hour) Uned sy'n mesur ynni ac sy'n gyfystyr a'r ynni all roi pŵer o 1 kW am gyfnod o awr.

Trydan Cydweithredol Corwen Trydan Cydweithredol Corwen Cyf. Prif Swyddfa: Gwesty Owain Glyndŵr, Y Sgwar, Corwen, LL21 0DL (Rhif Cofrestredig y Gymdeithas 32341R).

Cyfranddaliadau Trydan Cydweithredol Corwen Cyfranddaliadau cyffredin o £1 gyda Thrydan Cydweithredol Corwen.

MWh (megawatt hour) Uned sy'n mesur ynni ac sy'n cyfateb i 1000 kWh (gweler uchod)

Cynnig Cynnig Cyfranddaliadau gyda Thrydan Cydweithredol Corwen a gynhwysir yn y Ddogfen Gynnig hon.

Costau Cynnig Y costau a wynebwr gan Drydan Cydweithredol Corwen neu ar eu rhan wrth gyflwyno'r Ddogfen Gynnig hon.

Cyfnod Cynnig Y cyfnod y bydd y Cynnig ar agor (gan gynnwys unrhyw estyniad) fel y'i nodir yn amserlen y Cynnig yn y ddogfen hon.

Cyfranddaliadau'r Cynnig Cyfranddaliadau newydd o £1 gyda Thrydan Cydweithredol Corwen, wedi eu cynnig am werth llawn ar Delerau ac Amodau ac yn daladwy yn llawn o wneud cais.

PPA Cytundeb Pŵer Prynu ar gyfer gwerthu trydan.

Prosiect Perchnogaeth arfaethedig a gweithredu System Hydro Trydan Cydweithredol Corwen ar Nant Cawrddu, Corwen.

Rhagamcanion Y rhagamcanion ariannol ar gyfer Trydan Cydweithredol Corwen a nodir yn y ddogfen hon.

Rheolau Rheolau Trydan Cydweithredol Corwen, sydd ar gael o wneud cais amdanynt gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir ar gefn y ddogfen Gynnig hon.

Sharenergy Sharenergy Co-operative Limited Cymdeithas Gofrestredig (rhif cofrestru 31237R), cofrestrwyd yn The Pump House, Coton Hill, Shrewsbury, SY1 2DP.

Safle Lleoliad y System Hydro arfaethedig.

Telerau ac Amodau Telerau ac amodau'r Cynnig a gynhwysir ac a gynrychiolir gan y Ddogfen Gynnig hon.

Y System Hydro yn y Ddogfen Gynnig hon yw'r tyrbin Hydro, gwaith sifil ac offer perthynol y Prosiect.

10. NODIADAU CANLLAW

10.1. Gwneud Cais am Gyfranddaliadau

Mae'r Cynnig hwn ar agor i unigolion, Cymdeithasau Cofrestredig a sefydliadau eraill. I brynu cyfranddaliadau gyda Thrydan Cydweithredol Corwen, mae angen cwblhau'r Ffurflen Gais.

Cyn cwblhau'r Ffurflen Gais, dylech ystyried ceisio cyngor ariannol neu gyngor arall, yn enwedig o ran unrhyw agwedd ar y Ddogfen Gynnig nad yw'n eglur i chi. Tynnir eich sylw'n benodol at:

- Yr adran Ffactorau Risg sy'n disgrifio'r risgiau o ran buddsoddi yn y Cynnig Cyfranddaliadau.
- Telerau ac Amodau'r Cynnig oherwydd drwy gwblhau'r Ffurflen Gais byddwch yn gwneud cynnig di-droi'n-ôl y gallai Trydan Cydweithredol Corwen ei dderbyn.
- Rheolau Trydan Cydweithredol Corwen oherwydd wrth brynu Cynnig Cyfranddaliadau byddwch yn dod yn Aelod o Drydan Cydweithredol Corwen ac yn gorfod cadw at y Rheolau rheiny.

10.2. Swm i'w fuddsoddi

Pris pob cyfranddaliad yw £1. Y lleiafswm a gewch yw 250. Y mwyafswm yw 95,000. Bydd taliadau llog blynyddol yn seiliedig ar nifer y Cyfranddaliadau sydd gennych, ond dim ond un bleidlais fydd gennych, waeth faint o Gyfranddaliadau sydd gennych.

10.3. Manylion personol

Gallwch wneud cais fel unigolyn, neu cyn belled a bod gennych awdurdod priodol, ar ran Cymdeithas Gofrestredig neu sefydliad arall.

Am resymau cyfreithiol, ni alla rhai o dan 16 oed ddod yn Aelodau.

10.4. Ceisiadau Blaenoriaeth

Bydd y cyfranddaliadau'n cael ei roi ar sail y cyntaf i'r felin.

10.5. Datganiad

Wrth lofnodi'r Ffurflen Gais, fel unigolyn, rydych yn gwneud cynnig di-droi'n-ôl i fynd i gytundeb gyda Thrydan Cydweithredol Corwen. Os ydych yn lofnodi ar ran sefydliad neu unigolyn arall, rydych chi'n bersonol yn nodi fod hyn yn unol â'r awdurdod unigryw hwnnw.

Mae'n rhaid i'r rhai nad ydynt yn preswyllo yn y DU gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau nad oes cyfreithiau neu reoliadau yn eu gwald eu hunain fyddai'n eu hatal rhag buddsoddi neu dderbyn incwm gan fenter gydweithredol yn y DU. O dan Reoliadau Gwyngalchu Arian, efallai y bydd angen i chi gynhyrchu tystiolaeth foddhaol o'ch hunaniaeth ac mae'n amod o'r Cynnig eich bod yn gwneud hynny fel y gofynnir i chi. Dylech nodi os na fydd y Cynnig yn llwyddiannus, bydd angen dychwelyd arian i'r ymgeiswyr.

10.6. Talu

Dylech atodi siec neu ddrafft banc, o fanc neu gymdeithas adeiladu yn y DU ar gyfer yr union swm a ddangosir yn y blwch o dan 'Swm i'r fuddsoddi'. Os oes gwahaniaeth rhwng y ddau, neu os nad yw'r siec wedi ei anrhydeddu wrth ei chyflwyno, gellir gwrthod eich cais heb gyfathrebu pellach.

11. FFURFLEN GAIS

Cyhoeddi Cyfranddaliadau Trydan Cydweithredol Corwen, Chwefror 2015

Pwysig: Cyn cwblhau'r Ffurflen Gais hon mae'n rhaid i chi:

- Ddarllen y Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau sy'n cyd-fynd â hi
- Rhoi sylw arbennig i'r Ffactorau Risg a nodir yn y Ddogfen Gynnig
- Ystyried ble byddwch yn cymryd cyngor ariannol neu gyngor arall o ran Telerau ac Amodau'r Cynnig yn y Ddogfen Gynnig
- Darllen Rheolau Trydan Cydweithredol Corwen sydd ar gael ar wefan y prosiect www.corwenelectricity.org.uk neu gan y fenter Gydweithredol (manylion cyswllt ar gefn y Cynnig hwn)

DEFNYDDIWCH BRIF LYTHRENNAU AC INC DU A CHWBLHEWCH DDWY DUDALEN Y FFURFLEN GAIS

Swm i'w fuddsoddi: Rwy'n dymuno buddsoddi £_____.00 yn Trydan Cydweithredol Corwen yn seiliedig ar Delerau ac Amodau'r Ddogfen Gynnig am bris o £1.00 am bob Cyfranddaliad. *(Ni allwch fuddsoddi llai na £250 a dim mwy na £95,000).*

Manylion Ymgeisydd Unigol

Enwau cyntaf:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

Gohebiaeth: *Rhowch gyfeiriad e-bost os oes modd er mwyn lleihau'r costau gweinyddol y fenter gydweithredol*

[illegible]

Ydw

Os yw'r Ymgeisydd yn sefydliad

Cyfeiriad y Sefydliad:

Rhif cofrestru:

Safle'r llofnodwr awdurdodedig:

Talu llog: Os hoffech i'ch taliadau llog gael eu gwneud drwy drosglwyddiad banc, rhwch fanylion banc isod, neu bydd y llog yn cael ei dalu drwy siec.

Enw ar y cyfrif:	Cod didoli:	Rhif y cyfrif:
------------------	-------------	----------------

Ewch ymlaen i'r Datganiad trosodd a'i lofnodi

12. DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau:

- Y gellir tynnu'r Cais hwn yn olos rhoddir Dogfen Gynnig atodol, ond nid fel arall ac os caiff ei dderbyn gan Drydan Cydweithredol Corwen bydd yn ffurfio cytundeb yn amodol ar Gyfraith Lloegr ar Delerau ac Amodau'r Ddogfen Gynnig.
- Mae Ymgeisydd nad yw'n breswlydd yn y DU yn gyfrifol am sicrhau fod y Cais hwn yn unol ag unrhyw gyfreithiau neu reoliadau sy'n gymwys y tu allan i'r DU y mae ef/hi yn amodol iddynt.
- Os yw'r Cynnig yn orlawn mae'n bosibl na fydd Cais cymwys fel arall yn cael ei dderbyn yn rhannol neu yn gyflawn.
- Os na fydd y Cynnig yn codi digon o arian, dychwelir yr Arian Cais.

Rwy'n cadarnhau:

- Fy mod wedi darllen y Ddogfen Gynnig (gan gynnwys y Ffactorau Risg a'r Nodiadau Canllaw i'r Ffurflen Gais hon) a Rheolau Trydan Cydweithredol Corwen.
- Rwyf dros 16 oed ac mae'r Ymgeisydd yn bodloni meini prawf cymhwysedd y Cynnig.
- Mae gan Drydan Cydweithredol Corwen yr awdurdod drwy hyn i wneud ymholiadau o'r fath sydd eu hangen i gadarnhau cymhwysedd y Cais hwn.
- Nid yw'r Ymgeisydd yn gwneud ceisiadau niferus am gyfanswm o fwy na 95,000 o gyfranddaliadau.
- Nid yw'n dibynnu ar unrhyw wybodaeth neu sylwadau yn ymwneud a'r Cynnig am Gyfranddaliadau gyda Thrydan Cydweithredol Corwen, neu'r System Hydro nad yw wedi ei gynnwys yn y Ddogfen Gynnig hon.
- Bydd yr Ymgeisydd yn rhoi'r holl wybodaeth ychwanegol a'r ddogfennaeth y mae Trydan Cydweithredol Corwen yn gofyn amdani mewn cysylltiad â'r Cais hwn gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â gwyngalchu arian, trethu a rheoliadau eraill.
- Os ydych yn llofnodi'r Cais hwn ar ran rhywun/ sefydliad arall, rwy'n gwneud hynny gydag awdurdod penodol.

Rwy'n deall bod y siec sy'n dod gyda'r cais hwn yn cael ei chyflwyno fel taliad ar ôl ei derbyn ac rwy'n gwarantu y caiff ei thalu wrth ei chyflwyno'r tro cyntaf.

Llofnod (Ymgeisydd/ar ran Ymgeisydd sefydliad fel bo'n addas):	Dyddiad:
---	-----------------

Atoder un siec neu ddrafft banc ar gyfer y swm a ddangosir uchod, yn daliadwy i Drydan Cydweithredol Corwen Cyfyngedig ac wedi ei chroesi gan gyfrif y Talai.

Os bydd angen i ni ddychwelyd eich arian o gwbl oherwydd gordanysgrifio neu ddileu'r prosiect, a fyddech cystal â nodi a fyddech am i'r arian hwn gael ei ddychwelyd fel siec neu drosglwyddiad banc i'r cyfrif a nodir trosodd.

Dychweler unrhyw arian drwy siec ☐ drosglwyddiad banc ☐

Anfonwch eich ffurflen wedi ei chwblhau a'r taliad i:

Trydan Cydweithredol Corwen d/o Sharenergy, The Pump House, Coton Hill, Shrewsbury, SY1 2DP

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni sut y daethoch i glywed am y Cynnig Cyfranddaliad hwn:

Gellir llungopio'r ffurflen gais hon ac mae ffurflenni cais ychwanegol ar gael. Cyfeiriwch bob ymholiad i'r manylion cyswllt ar gefn y ddogfen Gynnig hon.

Diolch am ystyried tanysgrifio ac ymuno â Thrydan Cydweithredol Corwen.

Mae Trydan Cydweithredol Corwen yn Gymdeithas Gofrestredig gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (rhif cofrestru 32341R)

Unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen gynnig hon:

Sharenergy, The Pump House, Coton Hill, Shrewsbury, SY1 2DP

01743 277119

Mae'r prosiect wedi ei ddatblygu mewn cydweithrediad a



15fed Chwefror 2014

Argraffwyd ar bapur a ail-gychwyd